Cofnodion Cygngor nos Iau Ionawr 13 2022 am 7pm

Presennol: E.R.Noble, L.Roberts, C.Brewer, T.W.Jones, C.L.Price, M.Skerrett, M.L.Hughes, M.Chapman.

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 2.12.21, cynnig M.Chapman, cefnogi C.Brewer.

Cywiriad. Angen ychwanegu enw Sue Leyland a'r Clerc at yr enwau oedd yn mynd i drafod cynllun/prosiect yn y Fynwent.

Heddlu. Dim i'w adrodd. Liz Roberts yn trefnu cyfarfod buan.

Yr A470. Gwaith peintio llinellau gwyn i farcio terfynau ar y sgwar wedi cymryd lle, hyderir y bydd gwaith ailwynebu y maes parcio yn cymryd lle ym mis Ebrill.

Cyngor Sir. Paul Sagar NMWTRA yn delio gyda gosod y 'lanterni' newydd ar y polion trydan. Mae Daniel Durrans Network Rail yn ymwybodol o'r angen i glirio tyfiant coed ar Pont Gethin.

Llwybrau. Clerc wedi anfon at yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i'w holi am y sefyllfa gyda gwaith ger Ceunant Rhiw Goch ar afon Lledr, dim atebiad hyd yma.

Yr Orsaf. Dim i'w adrodd.

Pontydd yn yr Ardal. Deallwyd fod y cynlluniau wedi'u caniatau a bod gwaith i gychwyn ar Ionawr 26, mae L.Roberts wedi gofyn i Bryn Shiland i gysylltu gyda'r ardalwyr i adael iddynt wybod am y rhaglen waith.
Mae CBSC yn trefnu i symud coeden yn yr afon sy'n pwyso yn erbyn parapet y bont ym Mhont y Pant. Cyfarfod safle i gymryd lle ar Bont yr Afon yn y pentref Ionawr 28 i drafod gwaith sydd i gymryd lle yno all olygu cau y ffordd ar adegau.

Cynlluniau.
Ty'n Afallen - dim sylwadau
Bron Elan - deallwyd fod y rhain wedi'u caniatau.

Llifogydd. Mae'n debygol y bydd gwaith yn cychwyn ym mis Mawrth 2022.

Scottish Power. L.Roberts yn parhau i aros am ddyddiad cyfarfod i drafod arolygu'r gwaith ac i unrhyw broblemau gael eu datrys.
Mae Liz yn aros am gyfarfod 'Teams' gyda rheolwr SE ynglŷn â torri coed ar Fwlch Gorddinan, tebyg mai coed wedi dymchwel yw'r prif reswm dros doriadau yn y trydan i rai preswylwyr yn Roman Bridge. Mae rheolwr SE dros Ogledd Cymru i gyfarfod â Chynghorwyr Ardaloedd Gwledig ar y 3ydd o Chwefror i drafod y ffordd mwyaf hwylus i 'adnabod/dargafnod' preswylwyr sydd angen blaenoriaeth o ran sylw.

NRW. Cynlluniau wedi'i caniatau rhaid aros am delerau cytundeb gyda NRW yna gall y gwaith gychwyn ar y cynllun.

Terfyn gyrru 20mya. Dim i'w adrodd.

Dosbarthu'r Post. Dim atebiad.

Coeden Nadolig. Aeth y noson yn dda gyda criw o bobol yno ond roedd y tywydd yn oer a gwlyb! Clerc i anfon at Alan 'Ginge' Farrar i ddiolch iddo am ei waith yn gosod a diogelu'r goeden yn ei lle. Derbyniwyd rhoddion o dros £100 ar y noson ar gyfer y Clwb Ieuenctid.

Toiledau. Clerc wedi derbyn y gytundeb gyfreithiol i'w harwyddo gan y Swyddogion, wedi cwblhau y 'searches' gall trosglwyddiad yr adeilad gymryd lle. Mae Cwmni Yswiriant Zurich hefyd wedi cadarnhau yswirio'r adeilad heb ychwanegiad i'r premiwm ar hyn o bryd, bydd yn newid ar adnewyddiad y polisi. Clerc i gadarnhau gyda CBSC.

Y Gofgolofn. Clerc wedi cysylltu ag Ian Connolly ynglŷn â mainc Teulu Minafon ac maent yn hapus iawn gyda'r hyn mae'r Cyngor yn gynnig. Clerc wedi trafod gyda Teulu Cassell hefyd ac maent hwythau yn hapus gyda trefniadau'r Cyngor ynglŷn â dymuniad y plant i brynu a gosod mainc er cof am y diweddar Reg Cassell. Maent wedi paratoi plac i'w roi arni er cof.am Taid

Y Fynwent. Dylan wedi torri'r goeden ac un arall llai oedd wedi marw yn ei hymyl. Alistair Minton wedi lefelu'r tir ger y Gladdgell - angen clirio'r pridd. L.Roberts heb dderbyn ymateb gan S.Teale ynglŷn â'r gwaith hyn. Y Cadeirydd, C.Brewer a'r Clerc wedi cyfarfod â Ian Brooks ar y safle, bydd yn dod i wneud ei waith archwilio GPS yr wythnos nesaf. Bydd angen i'r rhai enwyd i gyfarfod i drafod y cynllun/prosiect ac i ystyried sawl agwedd - fel arolwg ystlumod, cynlluniau ar gyfer yr adeilad, yswiriant a cost y gwaith wrth gwrs.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig T.W.Jones, cefnogi C.L.Price a pawb o blaid.

Gwefan y Cyngor. M.Skerrett wedi trafod hyn gyda Bruce Atkins a chytunwyd y dylai ef a C.Brewer barhau i drafod ag ef i ddatblygu safle newydd i'r Cyngor. Bydd angen talu am 'enw' i'r safle.

Materion Ychwanegol, Cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn iddynt gael golwg ar sefyllfa dŵr yn llifo ar draws y ffordd ar Fwlch Gorddinan.
Clerc wedi cysylltu â CBSC i drefnu ymweliad Sgip i'r pentref.
Cadarnhawyd fod modd i ardalwyr Dolwyddelan fynd i'r Ganolfan Ailgylchu ym Mlaenau Ffestiniog ond bod rhaid cysylltu ymlaen llaw i fwcio.
NRW wedi cadarnhau fod ras beiciau yn dod i'r ardal ac am ddefnyddio tir Euros Williams ar chwarel Ty'n Bryn, Clerc i gysylltu ag Euros.

Cyfarfod nesaf: Cytunwyd y dylid cyfarfod nesaf yn y Pafiliwn nos Iau Chwefror 3 2022 am 7pm.

## TRAFODAETH ARCHEB 2022/2023

Roedd y Clerc wedi paratoi manylion manwl i'r Aelodau am yr holl wariant a derbyniadau o ddechrau'r flwyddyn ariannol hyd at noson y Cyngor, ynghyd ag amcan o'r gwariant hyd at ddiwedd y flwyddyn. Fe'u trafodwyd yn fanwl gan gyfeirio at un neu ddau ohonynt, y teimlad oedd fod y cynllun uwchraddio tir y Gofeb wedi bod yn llwyddiant mawr ac o fewn y rhicyn arian osodwyd. Cyfeiriodd y Clerc at waith arbennig C.Brewer yn cadw manylion manwl iawn o'r gwariant. Eto trafodwyd y gwariant tybiedig ar gyfer 2022/23 yn fanwl gan gynnwys cynllun ar gyfer y Fynwent. Cynigodd M.Chapman gyda M.Skerrett yn cefnogi a pawb o blaid y dylid gosod Archeb o £10,000.